


IONAWR 2026

## Darlleniad

**Salm 90 &**
**Hebreaid 12:1-2**

*“Arglwydd, buost yn amddiffynfa i ni ymhob cenhedlaeth. Cyn geni'r mynyddoedd, a chyn esgor ar y ddaear a'r byd, o dragwyddoldeb hyd dragwyddoldeb, ti sydd Dduw.” (Salm 90:1-2)*

## Myfyrdod cychwynnol

Ar ddechrau’r Flwyddyn Newydd hon, ymdawelwn a chymrwn y cyfle i gofio mai yr Arglwydd **yw ffynhonnell, a dechrau pob peth**. Mae Ef wedi bod yn ffyddlon ‘ymhob cenhedlaeth’ (Salm 90:1). Gwyddwn wrth fynd i flwyddyn newydd, y **mae Ef yn parhau i fod yn ffyddlon.** Mae Ei bresenoldeb wedi bod ‘o dragwyddoldeb hyd dragwyddoldeb’ (Salm 90:2). Ohono Ef y daw ein llawenydd - a phob peth da! Tybed a yw hi’n addas ar ddechrau’r flwyddyn i ni chwilio ein calonnau, a gofyn tybed a oes angen i ni **osod ein golygon ar yr Arglwydd** o’r newydd? (Heb 12:1-2) Efallai ein bod yn teimlo bod angen i ni edifarhau pan nad ydym wedi gwneud hynny yn y tymhorau a’r flwyddyn a fu. Gyda **hyder yn Ei ffyddlondeb Ef** yn awr**,** gallwn gyflwyno ein hunain, ein heglwysi, a’n gwlad iddo mewn gweddi...

## Pwyntiau gweddi



**Ein Heglwysi a’n Cymunedau**

- Rhown ddiolch am eglwysi ar draws Cymru, ac am **bob un o eglwysi** UBC. Rhown ddiolch am y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu ar draws Cymru.  Gweddïwn y bydd yr Arglwydd yn eu bendithio, ac yn **arllwys Ei Ysbryd Glân** arnynt o’r newydd at waith Ei Deyrnas.

**Ysgrifennydd Cyffredinol Newydd UBC**

- Rhown ddiolch am waith arbennig **y Parch. Judith Morris** dros ddeng mlynedd o wasanaeth fel Ysgrifennydd Cyffredinol. Deisyfwn fendith arni wrth iddi ddod i ddiwedd ei chyfnod yn y swydd.
- Gofynnwn i’r Arglwydd osod Ei law yn glir ar **broses apwyntio** Ysgrifennydd Cyffredinol newydd.

**Mwy** *o bwyntiau gweddi wythnosol a rhanbarthol penodol ar ein calendr gweddi ar* ***ubc.cymru***

## Gweddi

*Arglwydd, down atat Ti ar ddechrau’r Flwyddyn Newydd hon fel casgliad o Gristnogion ar draws Cymru.*

*Diolch mai Ti yw ffynhonnell ein bywydau, a phob peth - ac mai i Ti yr edrychwn ar ddechrau’r flwyddyn newydd hon.*

*Cyflwynwn i Ti bob un o eglwysi Undeb Bedyddwyr Cymru ar draws y wlad. Gofynnwn i ti fendithio pob un ohonynt, ac arllwys dy Ysbryd Glân arnynt o’r newydd eleni.*

*Gofynnwn yn enwedig am i Ti osod Dy law ar broses apwyntio Ysgrifennydd Cyffredinol newydd i UBC. Gofynnwn i Ti baratoi yr unigolyn sydd ar dy galon at y gwaith.*

*Arglwydd, a wnei Di baratoi ac ysbrydoli pob un ohonom eleni at waith Dy Deyrnas?*

Yn enw Iesu, Amen.